Gyfeillion

Bu digwyddiad o bwys y llynedd - o bwys i'r traddodiad anghydffurfiol ‘ta beth. Caewyd drysau’r capel anghydffurfiol cyntaf sef Llanfaches ym Mynwy am y tro diwethaf. Roedd y digwyddiad i'w ddisgwyl a'r arwyddion wedi bod yn amlwg ers blynyddoedd. Sefydlwyd y gynulleidfa gyntaf yno yn 1639 a chynhaliwyd addoliad yn gyson, heblaw am gyfnod o ansefydlogrwydd gwleidyddol o 1642 hyd at 1689 pan ddechreuwyd ar y gwaith o adeiladu capeli anghydffurfiol led led Cymru. Mae dad-gorffori a chau capel Llanfaches yn rhan arwyddocaol o broses sy'n gweld nifer helaeth o gapeli yn cau y dyddiau hyn.

Y ddau draddodiad mwyaf arwyddocaol o fewn twf anghydffurfiaeth oedd y Bedyddwyr a'r Annibynwyr. Erbyn 1775 roedd 100 o gynulleidfaoedd yng Nghymru ac yng nghyfrifiad 1851 cofnodwyd bod 96,527 yn mynychu addoliad. Aethpwyd ati i adeiladu capeli ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn a chyrhaeddodd y broses ei phenllanw yn 1873 pan adeiladwyd Tabernacl Treforys, y cyfeirir ati fel Eglwys Gadeiriol Anghydffurfiaeth. Er gwaethaf Diwygiad 1904 dirywiad fu hanes y traddodiad anghydffurfiol yn y 19eg a'r 20fed ganrif.

Canolbwynt anghydffurfiaeth a'r broses o adeiladu capeli yn yr ardal hon oedd Henllan Amgoed. Ffurfiwyd y gynulleidfa yno yn 1695 ac adeiladwyd y capel yn 1697. Daeth aelodau o gapel Henllan Amgoed i bregethu yn Sanclêr yn 1745 ac adeiladwyd capel Bethlehem yn 1765. Erbyn 1774 roedd y nifer yn y gynulleidfa wedi cyrraedd 500. Erbyn 1785 bu'n rhaid ail-adeiladu ac ehangu’r capel. Yn 1803 ordeiniwyd y Parch John Davies yn weinidog. Dyna'r traddodiad rydym yn deillio ohono!

Y gyfrinach i ddeall ble rydym wedi cyrraedd yw sylweddoli taw proses yw e. Mae ein sefyllfa ni heddiw yn wahanol iawn i Lanfaches yn 1639 neu hyd yn oed Pwll Trap yn 1745 ond rydym i gyd yn rhan o'r un broses. Bu'n rhaid i bob cynulleidfa addasu i'w hamgylchiadau. Erbyn hyn rydym yn gynulleidfa gymharol fach yn amrywio o 20 i 40 ond mae'r defnyddwyr deirgwaith gymaint â hynny. Gellid damcaniaethu ynglŷn â’r gwahaniaeth rhwng gwerth cysylltiad addolwyr a defnyddwyr ond y ffaith yw bod cysylltiad.

Ffaith arall na ellir ei hamau yw mai addoldy yw Bethlehem - addoldy sy'n estyn allan at y gymuned ond addoldy yn gyntaf ac yn bennaf. Bu'r penderfyniad i addasu'r adeilad a phenodi Swyddog Cymunedol yn ddewr a llwyddiannus ond y gwirfoddolwyr oedd yn allweddol.

Pobl sy'n ffurfio cynulleidfa a chreu eglwys a dyna yw craidd ein bodolaeth fel anghydffurfwyr - offeiriadaeth yr holl saint. Collwyd anwyliaid yn ystod y flwyddyn ac estynnwn ein cydymdeimlad â’u teuluoedd a hyderwn bydd bendith Duw arnynt.

Bydd y flwyddyn newydd yn galw am esblygiad pellach gennym. Hyderwn y gall y gwreiddiau hyn ein galluogi i hedfan heb anghofio ein treftadaeth gyfoethog. Edrychwn ymlaen i'r dyfodol - pwy a ŵyr beth ddaw i'n hwynebu ond hyderwn y bydd Duw yn ein harwain a'r Crist yn gydymaith ar y daith.

Yn gywir,

RGT